**Cyngor Cymuned Glantwymyn**

**Nos Iau, y 25ain o Orffennaf 2019**

**19:54: Presennol:** Cynghorwyr: Siôn Ifans (Cadeirydd), Gwyn Jones, Geraint Wigley, William N Owen, Paul Hughes, Gwenfair Davies, Iwan Jones, Elwyn Vaughan,

**19:55: Ymddiheuriadau:** Dafydd Ifans, Aled Griffiths, Deryck Lewis, Geraint Wigley, Gwen Lloyd, Gareth Owen, Huw Williams, Aeron Pughe, Gareth Jones

**19:56:1: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Cyfarfod CC Glantwymyn Mehefin 2019** Cynigiodd Gwenfair Davies fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan William Owen

**19:57: Datganiadau o ddiddordeb** – dim

**19:58: Materion yn codi o'r cofnodion:**

**19:47:2:** Pump house Cwmlline wedi cael sylw. Glanhawyd a thrwsiwyd y beipen dŵr gwastraff. Penderfynwyd monitro'r sefyllfa.

**19:47:3**: Blychau ffôn. Cafwyd cynnig i brynu Cemaes a chafwyd cefnogaeth Cyngor Sir Powys i brynu bocs Darowen sy'n rhestredig. Penderfynwyd cysylltu â BT i gael gwybod a fyddai'r ffonau'n cael eu tynnu o'r bocsys, a fydd y golau'n cael ei ddatgysylltu a phwy piau'r tir o dan y bocsys. Cyflwynwyd cais i brynu bocs ffôn Comins Coch. Nodwyd bod Dolfor wedi cael bocs newydd.

**19:51:2:** Ceir Cofeb Rhyfel Cemaes ei hadfer gan Rhys Bleddyn a Glyn Williams. Ni fydd modd adfer Cofeb Cwmlline dan Gynllun Cofebion Powys ond ceisir arian gan ffynonellau eraill.

**19:51:3**: Materion prif ffyrdd. Ar ôl cysylltu â Mr Adrian Jervis, gwelwyd rhywfaint o waith yn cael ei wneud. Mae lampau rhif CR72 a CR73 wedi cael eu datgysylltu ers deng mlynedd i arbed arian i Gyngor Sir Powys.

Mae cynlluniau ar y gweill gan Bowys i ddelio â choeden Nant y cyff a thyllau archwilio Pantperthog.

Derbyniwyd e-bost pellach yn gofyn am ohirio torri'r gwair ochr y ffordd yng Ngheinws ar sail gadwraethol. Penderfynwyd cysylltu i gadarnhau eto bod diogelwch yn flaenoriaeth gan y Cyngor, sy'n gorfod gofalu am holl aelodau'r gymuned a bod y mater erbyn hyn yn nwylo'r Cyngor Sir.

**19:58: Cynllunio** – Dim

**19:59: Eitemau i'w Talu a Materion Ariannol**

**19:59:1:** Talwyd £102 i Gloversure

**19:59:2:** Yswiriant -Penderfynwyd cysylltu ag Aled Griffiths am gyngor ar gynnig Cwmni Came £482.60.

**19:59:3**: Talwyd £390.00 yn gyflog i'r clerc ar gyfer Mehefin

**19:59:4:** Derbyniwyd a chytunwyd anfon y cyfrifon diwedd blwyddyn yn ôl i Whittingham Redell. Cytunwyd gan bawb.

**19:60: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:51:1**: **Iechyd** – Cafwyd crynodeb o Fforwm y Cleifion - Gorffennaf 16eg, 2019

**Meddygfa Iechyd Bro Ddyfi** Adroddodd Rheolwraig y Practis fod dau feddyg yn ôl yn eu gwaith yn dilyn absenoldeb. Mae un o nyrsys y practis wedi gadael ac un arall yn absennol oherwydd salwch. Roedd y practis wedi recriwtio nyrsys eraill, ond nid ydynt wedi dechrau eto.

Dywedodd fod staff y feddygfa yn cael eu cam-drin yn eiriol gan rai o ddefnyddwyr y Gwasanaeth a bod hyn yn annerbyniol. Roedd aelodau'r fforwm o'r un farn, ond nodwyd fod defnyddwyr yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â chau'r feddygfa yng Nglantwymyn a hefyd y diffyg cyfathrebu.

Pwysleisiodd Hayley Thomas. Rheolwraig Rhaglen o Fwrdd Iechyd Addysgol Powys fod angen i gwynion ddilyn y drefn gwyno a'u cyfeirio at y sefydliadau perthnasol, yn cynnwys y feddygfa, y Cyngor Iechyd Cymunedol neu at y Bwrdd Iechyd.

Nododd un aelod ei bod wedi gyrru cwyn rai misoedd ynghynt i'r feddygfa ac na chafodd unrhyw ymateb. Roedd hyn yn siomedig ond dywedodd rheolwraig y practis nad oedd wedi ei dderbyn.

Deallwyd y bydd gwasanaeth codi meddyginiaeth yn cael ei weithredu yng Nghanolfan Glantwymyn, dros dro yn y lle cyntaf. Hefyd bydd Camad, sefydliad gwirfoddol yn hen Ysbyty'r Fro yn medru cynorthwyo gyda chludiant i'r feddygfa.000000 Roedd Rheolwraig y Practis yn bresennol. Adroddodd fod dau feddyg yn ôl yn eu gwaith yn dilyn absenoldeb. Mae un o nyrsys y practis wedi gadael ac un arall yn absennol oherwydd salwch.

**Bwrdd Iechyd Addysgol Powys**

Adroddodd Hayley Thomas fod Cyfarwyddwr newydd adran Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Addysgol Powys yn dod i siarad yn y fforwm cleifion ym mis Medi. Bydd dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol Powys yn dechrau yn fuan ac yn gweithio o swyddfa yn Ysbyty Machynlleth.

Dywedodd Hayley fod cais gynllunio'r datblygiad yn yr Ysbyty wedi ei gymeradwyo ond bydd angen ail dendro. Rhagwelir y bydd y Gwaith adeiladu yn dechrau yng Ngwanwyn 2020

**Ysbyty Bronglais**

Adroddodd Hazel Davies eu bod wedi bod yn llwyddiannus yn recriwtio arbenigwyr, ond bod diffyg nyrsys yno ac ar draws y wlad. Mae ganddynt gytundeb gydag asiant ac yn ceisio sicrhau fod y nyrsys hyn yn gweithio mewn adrannau lle maent yn brofiadol a chadw cysondeb. Disgwylir y bydd y sefyllfa yn gwella yn y dyfodol wrth i Brifysgol Aberystwyth ddechrau hyfforddi nyrsys.

Mae'r theatrau llawdriniaethau newydd yn weithredol ers y Gwanwyn eleni. Y rhain yw'r rhai mwyaf modern ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda.

Gobeithir y bydd safle'r sganiwr newydd wedi ei gwblhau eleni ac y bydd yn weithredol ym mis Rhagfyr. Sganiwr symudol sydd ganddynt ar hyn o bryd dair gwaith yr wythnos.

Dywedodd aelod o'r fforwm fod pobl yr ardal yn adrodd eu bod yn gorfod disgwyl yn hir am wasanaeth Awdioleg. Cynigiodd Hazel Davies edrych mewn i hyn.

**Gwasanaeth Ambiwlans.** Cafwyd adroddiad gan Dave Watkins Rheolwr Ardal Bwrdd Ambiwlans Cymru ar gyraeddiadau'r gwasanaeth a chafwyd fod canran uchel o gleifion yn ei dderbyn yn amserol. Oherwydd natur ardal wledig Powys nid yw'n realistig i gyrraedd cleifion mewn 8 munud.

**19:51:2:** Cyngor Sir Powys **Mae cynlluniau Ysgol Bro Hyddgen erbyn hyn yn gyfrifoldeb Cyngor Sir Powys**

**Cynhelir cyfarfod Rewilding yn Nhalybont nos Fercher, am 7.30**

**19:52 Gohebiaeth**

**19:52:1**: Derbyniwyd gwahoddiad gan 'Gwyrddni Glan Ein Byd' i noson o gyflwyniadau 26.9.19 am 7.30 yn yr Eliffant and Castle, y Drenewydd

**19:52:2:** Derbyniwyd llythyron i ddiolch gan Nora Wigley am y cyfraniad at gadeiriau Cymuned Glantwymyn a Mr Stephen Tudor am y cyfraniad at fynwent Cwmlline

**19:53: Unrhyw fater arall**

**19:53:1:** Problemau'n ymwneud â phriffyrdd yn cynnwys:

**19:53:2:** Problem gydag ochr y ffordd yn rhoi rhwng Abergwybedyn a Dolfonddu

**19:53:3:** Angen torri'r sietyn wrth Ffatri Isaf, Abercegir – perygl gan fod cornel ddrwg ar y ffordd,

**19:53:4:** Bin ysbwriel yn llawn teils wedi torri yn y 'layby' rhwng Glanfechan a Ffridd Gate ar y ffordd B4404.

Caewyd y cyfarfod am 8.25yh

**Cynhelir y cyfarfod nesaf, nos Iau, y 26ain o Fedi am 7.30yh.**